

## MARKS, DAVID (1788 - 1871), cerddor

**Enw:** David Marks  
**Dyddiad geni:** 1788  
**Dyddiad marw:** 1871  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cerddor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Cerddoriaeth  
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn 1788 ym mhlwyf Cilrhedyn, Sir Gaerfyrddin. Saer maen ydoedd wrth ei alwedigaeth. Yr oedd yn adnabyddus fel cerddor, a gwnaeth wasanaeth mawr trwy fynd oddi amgylch i gynnal dosbarthiadau cerddorol. Cyfansoddodd amryw o donau; ceir ' Cannon Street ' a ' Manchester ' yn yr *Haleliwia Drachefn*, 1855. Bu farw 3 Hydref 1871 yn Ffynnon-drain, plwyf Eglwys Newydd, ger Caerfyrddin.

### Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

### Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732867](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

